**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales

18 Ebrill 2019

Annwyl Mick,

Ar 15 Mawrth 2019, gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad ynghylch Bil yr Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir (y Bil) sydd bellach yn destun tair wythnos o graffu gan y Pwyllgor. O failystyried y Bil, rwy'n ysgrifennu atoch i ddweud ei bod yn fwriad gennyf gyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ar y mater hwn. Roedd y Memorandwm gwreiddiol yn gofyn am gydsyniad ar gyfer Cymal 2 a Chymal 4 y Bil, ond bydd y fersiwn ddiwygiedig yn gofyn am gydsyniad hefyd ar gyfer Cymal 3 a Chymal 5. Bydd y Memorandwm yn disgrifio pwrpas y darpariaethau hyn ac rwy'n esbonio pam mae angen diwygio'r Memorandwm isod.

Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi canllawiau ar agweddau ar ddatganoli ar gyfer ei swyddogion ar ffurf Canllawiau ar Ddatganoli (DGN). Yn dilyn Deddf Cymru 2017, edrychodd Swyddfa Cymru o'r newydd ar y canllawiau hyn er mwyn ystyried y model cadw pwerau a'u diwygio yn unol â hynny. Er sicrhau cysondeb, mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi adolygu'r ffordd y maen nhw'n asesu pa ddarpariaethau mewn Bil gan y DU y bydd angen cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru arnyn nhw. Mae'r angen i adolygu'r Memorandwm yn ganlyniad i'r newid hwn. Bydd y newid hwn yn cael ei gofnodi yn ein canllawiau ni. Byddwn yn eu rhannu â'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddwn wedi creu fersiwn derfynol.

O dan y drefn flaenorol, wrth asesu pa ddarpariaethau mewn Bil gan y DU a fyddai'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac felly angen cydsyniad y Cynulliad arnyn nhw, byddem wedi diystyru darpariaethau y byddai angen cydsyniad Gweinidog y Goron arnyn nhw os mai'r bwriad oedd eu cynnwys ym Mil gan y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

DGN newydd yn gofyn i swyddogion Llywodraeth y DU ofyn am gydsyniad ar gyfer darpariaethau o'r fath.

O ganlyniad i'r DGN newydd, rydyn ni o'r farn bod Cymalau 3 a 5 o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol ac y bydd felly angen cydsyniad y Cynulliad. Byddaf felly yn cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig sy'n disgrifio'r darpariaethau y bydd gofyn i'r Cynulliad eu hystyried.

Rwyf wedi anfon copïau o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a wnaeth ystyried y Memorandwm gwreiddiol.

Cofion,

**Lesley Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs